Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru a

Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan

YMATEB I'R PANDEMIG COVID-19

Mai 2020

CYFLWYNIAD

Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi cynhyrchu'r ymateb strategol hwn i sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn fusnes pawb wrth i'n hasiantaethau a'n gwasanaethau partner ymdopi â'r pandemig Covid-19.

Hoffai'r Bwrdd roi sicrwydd i'r cyhoedd a staff ein bod yn gweithio'n galed i gynnal ein dyletswyddau statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles y rhai sydd fwyaf agored i niwed, er gwaethaf yr amgylchiadau eithriadol rydym yn eu hwynebu o ran y pwysau ar staff rheng flaen o ganlyniad i gadw pellter cymdeithasol a hunanynysu. Mae'n hanfodol bod anghenion plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu diwallu a'u bod nhw'n parhau i fod yn ddiogel yn ystod y cyfnod hwn.

Yn amlwg, mae'r sefyllfa yn un sy'n newid yn gyson. Rydym yn cydnabod na all canllawiau fod ar gael i gynnwys pob sefyllfa, felly mae'n bwysig bod asiantaethau partner y Bwrdd yn gweithredu eu trefniadau parhad busnes o ran gwasanaethau hanfodol ac yn gweithredu barn leol mewn ymateb i amgylchiadau lleol, o fewn cyd-destun canllawiau cenedlaethol.

Gallwch fod yn hollol sicr fod lles ein staff rheng flaen a'r gymuned yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac mai diogelwch y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yw ein prif ystyriaeth o hyd. Hoffai'r Bwrdd ganmol a chynorthwyo'r holl staff a gwirfoddolwyr ymroddedig hynny sy'n gweithio gyda'r rhai mwyaf agored i niwed ac yn darparu gwasanaethau hanfodol, ar yr adeg hon.

Bydd Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i gynorthwyo ei asiantaethau partner a'i ymarferwyr, ar yr adeg hon, wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau diogelu. Mae'n parhau i fod yn hanfodol ein bod yn gweithio gyda'n gilydd, fel rhanbarth, i sicrhau bod diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl yn parhau i fod ar flaen ein gwaith.

Damien McCann a Keith Rutherford
Cadeiryddion Bwrdd Diogelu Gwent

SWYDDOGAETH ALLWEDDOL Y BWRDD

Rydym yn cydnabod y gallai effaith Covid-19 ar les ein plant, pobl ifanc ac oedolion mwyaf agored i niwed fod yn sylweddol ac y gallai arwain at risg uwch o:

- Esgeuluso a/neu gam-drin
- Cam-drin domestig
- Camddefnyddio sylweddau gan rieni
- Salwch/Teimlo'n ynysig
- Iechyd meddwl gwael
- Tlodi
- Cam-drin ariannol
- Unigrwydd

Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn perygl yn parhau i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed yn ystod y cyfnod anodd a heriol hwn. Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod gan bob un o'i asiantaethau partner fesurau effeithiol ar waith i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu allweddol a bod ymateb rhanbarthol cydgysylltiedig i ddiogelu ein pobl fwyaf agored i niwed.

SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN?

Bydd y Bwrdd yn rhoi'r mesurau canlynol ar waith:

- **Cynnal cyfarfodydd y Bwrdd Diogelu Gweithredol bob pythefnos mewn ymateb i COVID-19 i sicrhau llywodraethu cadarn a rhoi sicrwydd bod ein gwaith yn diwallu'r angen rhanbarthol strategol**
- **Cyfleu'r trefniadau diogelu y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol i bartneriaid y Bwrdd ac adolygu newidiadau yn rheolaidd**
- **Derbyn a rhannu canllawiau gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i sicrhau bod dyletswyddau statudol y Bwrdd yn cael eu cyflawni**
- **Cydlynu cyfathrebiadau diogelu hanfodol ein Bwrdd i sicrhau neges gyson a chlir**

SWYDDOGAETHAU ERAILL Y BWRDD

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd gynnal nifer o swyddogaethau statudol fel sydd wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ond yn amlwg nid oes modd cynnal busnes yn ôl yr arfer ar hyn o bryd tra bo galw ar bartneriaid i ymateb i'r gofynion brys ac eithriadol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol.

Ar 18 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar rôl a swyddogaethau disgwyliedig Byrddau Diogelu ar yr adeg hon a ddefnyddiwyd i lywio datblygiad a chytundeb ein blaenoriaethau busnes hanfodol a fydd yn cael eu hadolygu'n aml. Byddwn yn ceisio mynd yn ôl i'r drefn arferol pan fydd yn rhesymol gwneud hynny.

Rhoi gwybod am blentyn neu oedolyn mewn perygl

Cyfrifoldeb pawb yw diogelu. Mae'n ddyletswydd ar bawb i fod yn effro i bryderon ynghylch cam-drin ac esgeuluso plant, pobl ifanc ac oedolion, a gwybod i bwy y dylent roi gwybod am eu pryderon.

Os ydych chi'n pryderu bod plentyn, person ifanc neu oedolyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso rhaid i chi roi gwybod am eich pryderon i'ch Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth lleol isod:

Blaenau Gwent – *Plant ac Oedolion* Ffôn: 01495 315700
DutyTeam@blaenau-gwent.gov.uk
DutyTeamAdults@blaenau-gwent.gov.uk

Caerffili – *Plant* Ffôn: 0808 100 1727 cyswlltacatgyfeirio@caerffili.gov.uk.
Oedolion Ffôn: 0808 100 2500 diogeluoedolionagorediniwed@caerffili.gov.uk
neu GCChOedolion@caerffili.gov.uk

Sir Fynwy – *Plant* Ffôn: 01291 635669 ChildDuty@monmouthshire.gov.uk
Oedolion Ffôn: 01873 735492 MCCadultsafeguarding@monmouthshire.gov.uk

Casnewydd – *Plant ac Oedolion* Ffôn: 01633 656656
children.duty@newport.gov.uk
firstcontact.adults@newport.gov.uk
neu pova.team@newport.gov.uk

Torfaen – Plant ac Oedolion Ffôn: 01495 762200 socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

Ar ôl 5pm ac ar benwythnosau a gwyliau banc, ffoniwch y **Tîm Dyletswydd Argyfwng** ar 0800 328 4432.

Os ydych chi'n meddwl bod plentyn neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr **Heddlu** ar 999